**Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru**
**Cofnodion yr Is-Bwyllgor DTRh**
**4 Gorffennaf 2005**

| **Yn Bresennol** | **Camau Gweithredu** |
| --- | --- |
| M Hooker, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>N Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot<br>C A Williams, Cyngor Sir Benfor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol<br>R Amundson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>A Bull, Cyngor Sir Powys<br>M Frampton, QPA<br>S Martin, Llywodraeth Cynulliad Cymru | |
| **1. Ymddiheuriadau**<br>A Wilkes, Asiantaeth yr Amgylchedd<br>S.Bool, CBS Pen-y-bont ar Ogwr<br>M.Lucas, Bro Morgannwg | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 23/2/05**<br><br>Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir. | |
| **3. Materion sy'n codi**<br><br>Dim. | |
| **4. IMAECA**<br><br>Gofynnwyd pryd fyddai protocol LICC yn barod a chadarnhawyd y byddai'n barod cyn bo hir ond roedd dal gofyn i gadarnhau'r statws.<br>Gofynnodd MF gwestiwn am yr angen i wahaniaethu rhwng EMAADS ac IMAECA. A fyddai manylion fel cyfeirio at dunnelli/y pen yn cael eu defnyddio? A fyddai cyfeiriad at yr egwyddor o agosrwydd?<br>Cafwyd trafodaeth am y ffactorau arbennig sy'n dylanwadu ar y ffigur tunnelli/y pen. Cydnabuwyd y gallai allforio, adnoddau PSV uchel a defnydd nad yw'n ddefnydd adeiladu ddylanwadu.<br>O ran cronfeydd, teimlwyd bod angen mwy o waith i benderfynu ar gadernid ffigurau cronfeydd. Byddai gofyn am hyn er mwyn asesu tebygrwydd ail-actifadu a pha mor 'fyw' oedd y cronfeydd.<br>Cyfeiriwyd at y defnydd o brisiwyr mwynau yn Sir Gaerfyrddin lle mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gael arian o'r Dreth Agregau i asesu mwynau fel rhan o'r broses gorchmynion gwahardd ar bedwar safle.<br>Gofynnwyd a oedd angen dadansoddiad cenedlaethol arnom o ran y broses hon. Cytunwyd y byddai SB yn gofyn i Duncan Pollock o QPA am restr UN ac y byddai'r Gweithgor yn cynhyrchu rhestr DAU.<br>SB i anfon copi o restr UN at SM. | **SB** |

| | |
|---|---|
| Gofynnodd AB beth fyddai'r defnyddiau posibl eraill ar gyfer safleoedd rhestr DAU. Cafwyd trafodaeth gyffredinol yn dilyn hyn.<br><br>Trafodwyd rheolaeth dros allforion. Pwy sy'n gosod y polisi? A ellir gorfodi amodau trwyddedu? Beth fyddai'r berthynas â pSAC?<br><br>Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd pe bai IMAECA yn dangos gallu amgylcheddol cyfyng o ran rhai adnoddau tywod a gro tir. A ddylid eu tynnu allan o'r ardaloedd gwarchod?<br><br>Trafodwyd y mater o adfer safleoedd tywod a gro ar lan y môr. O ystyried eu lleoliad mewn ardaloedd isel yn gyffredinol, gallai fod problemau o ran llifogydd, taro adar, dŵr ar yr wyneb, ayb.<br><br>Trafodwyd opsiynau cyflenwi a'r cyfyngiad/embargo mewn parciau cenedlaethol ac ardaloedd o brydferthwch neilltuol cenedlaethol.<br><br>Cadarnhawyd dyddiad seminar lledaenu adroddiad ymchwil Smiths Gore ar wastraff adeiladu, dymchwel a chwareli ar 19 Gorffennaf 2005 yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd am 11a.m.<br><br>Trafodwyd effaith gweithredwyr yn talu am eithriadau Asiantaeth yr Amgylchedd o fis Gorffennaf 2005. Gallai'r goblygiadau fod yn sylweddol ond mae'n anodd rhagdybio newidiadau mewn tueddiadau ar hyn o bryd. Gobeithir y byddai unrhyw ffioedd yn cael eu gwario ar fwy o fonitro a gorfodi.<br><br>Nodwyd pryder am swm cynyddol y pentyrrau mewn chwareli (defnydd y gellir ei werthu nid gwastraff). Soniwyd bod angen mwy o waith i benderfynu ar yr achosion a ffyrdd posibl o ddatrys y broblem.<br><br><u>Trafodwyd hawliau PD ond ystyriwyd bod hwn yn codi sgwarnogod mwy na thebyg (gwirio).</u><br><br>Cytunwyd bod angen datganiad sy'n cynnwys datganiad o rôl y gymuned neu fformat debyg yn elfen ymgynghoriad cyhoeddus y DTRh. SB i ddarllen yr adroddiad CIS. CW i roi cyfeiriad y cyswllt cyflenwi ar gyfer gwefan MIRO i SB.<br><br>**<u>UFA</u>**<br>Dim.<br><br>**Dyddiad y cyfarfod nesaf** SB i drefnu cyfarfod ar gyfer mis nesaf (papur materion diwygiedig i'w gyflwyno i'r Gweithgor ym mis Medi 2005). Dyddiad wedi ei gadarnhau erbyn hyn fel 3/8/05 ym Mhen-y-bont ar Ogwr. | **SB/MH** |